

12/03/21

Annwyl Riant Warcheidwad,

Rydym yn edrych ymlaen at groesawi bob disgybl yn ôl i'r ysgol dros y bythefnos nesaf. Ail agor yw ein blaenoriaeth, fel y gall disgyblion ailgydio yn eu dysgu ac ailgysylltu gyda'u hathrawon a'u ffrindiau fydd yn rhoi hwb i'w lles. Gweler isod ar gyfer manylion y diwrnodau fydd eich plentyn yn mynychu cyn y Pasg (bydd yr ysgol yn agor i ddisgyblion am 08:15):

Diwrnod	Blwyddyn	Diwrnod	Blwyddyn
Llun 15/03/21	11 a 13	Llun 22/03/21	10, 11, 12 a 13
Mawrth 16/03/21	11 a 13	Mawrth 23/03/21	7, 10, 11, 12 a 13
Mercher 17/03/21	11 a 13	Mercher 24/03/21	8, 10, 11, 12 a 13
Iau 18/03/21	10, 11, 12 a 13	Iau 25/03/21	9, 10, 11, 12 a 13
Gwener 19/03/21	10, 11, 12 a 13	Gwener 26/03/21	10, 11, 12 a 13

(Bydd rhyddid gan ddisgyblion y 6ed (Bl. 12 a 13eg) i fynychu'r ysgol ar gyfer eu gwersi yn unig, os gallant deithio i ac adre o'r ysgol yn ddiogel.)

Wrth ddychwelyd mae yna gyfres o fesurau pwysig yn eu lle fydd, at ei gilydd, yn lleihau'r risg o ledaenu'r firws. Mae'r wybodaeth bwysig yma yn y ddogfen [Mesurau Cofid ail agor Mawrth 2021– Gwybodaeth i Rieni](#) (sydd hefyd ar ein safwe). Gofynnaf yn garedig i bob rhiant / warcheidwad ymgyfarwyddo gyda'r ddogfen, sydd yn cynnwys nifer o negeseuon ymarferol pwysig, ac i atgyfnerthu'r negeseuon pwysig yma gyda'u plant.

Mae ein disgyblion wedi bod yn arbennig o dda yn cydymffurfio gyda'r mesurau hyd yn hyn. Mae eu dealltwriaeth o'r rhesymau pwysig pam mae angen i ni gyd 'chwarae ein rhan' yn y frwydr i leihau lledaenu'r yn gadarn a chlir iawn. Rydym yn hynod falch o'r lefelau uchel o aeddfedrwydd a thosturi at eraill maent wedi dangos wrth gydymffurfio ac effaith positif hyn ar holl deuluoedd yr ysgol, yn enwedig aelodau mwy bregus a hen. Diolch i chi fel rhieni am ail-bwysleisio'r negeseuon yma fel y gallwn barhau i ddiogelu holl aelodau cymuned Bryn Tawe'r gorau gallwn.

Isod mae rhai negeseuon pwysig ar gyfer ail agor yn rhannol:

- Pan nad yw disgyblion yn yr ysgol, byddant yn dilyn eu hamserlen 'dysgu o bell' fel arfer (bydd gwahoddiadau yn eu calendrau 'Teams' ar gyfer eu gwersi).
- Bydd disgwyl i ddisgyblion blynwyddoedd 10, 11, 12 a 13eg i gymryd prawf llif unffurf dwywaith yr wythnos o ddydd Llun yr 22.03.21. Bydd manylion llawn am sut i weinyddu'r prawf i ddilyn, gan gynnwys ffurflen ganiatâd rhieni. Byddwn yn mynd dros y broses gyda'r disgyblion yn ystod yr wythnos gyntaf 'nol.
- Bydd disgwyl i ddisgyblion wisgo mygydau ym mhob gwrs mewn ystafell ddosbarth wrth ddychwelyd ar y 15fed o Fawrth (oni bai eu bod wedi eu heithrio'n feddygol rhag gwneud).



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
 Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
 Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWYR
MEWN POBL

| Aur



- Bydd pob disgybl yn derbyn gorchuddion tair haen (3 yr un) wedi dychwelyd. Disgwylir iddynt ddod â'r gorchudd yma gyda nhw bob dydd.
- Bydd cludiant arferol ar gael i ddisgyblion sydd yn deilwng ar y diwrnodau maent yn mynychu wrth ail agor.
- Ni fydd cinio ysgol i ddisgyblion am y bythefnos gyntaf (rhwng y 15.03.21 - 26.03.21) a bydd disgwyl i bob disgybl ddod â phecyn bwyd.
- Mae disgwyl i'ch plentyn wisgo gwisg arferol.
- Rhaid dod â chot i'r ysgol gan fydd eich plentyn tu allan ar gyfer egwyl a chinio oni bai ei bod hi'n dywydd eithriadol. Oherwydd mae awyru'r ystafelloedd yn golygu bod yr adeilad, ar adegau yn gallu bod yn oerach nag arfer, bydd caniatâd gan ddisgyblion i wisgo cotiau mewn gwersi (rhaid eu bod yn cydymffurfio â lliwiau'r ysgol).

Rydym yn deall y pryderon am rhai o'r mesurau 'newydd' y tro yma a byddwn yn cefnogi eich plentyn tra hefyd yn sicrhau cysondeb fel y gallwn ni gyd 'chwarae ein rôl' i leihau'r risg o ledaenu'r firws.

Os oes unrhyw gwestiwn pellach gennych, plis peidiwch ag oedi i gysylltu â ni yn yr ysgol.

Yn ddiffuant,

Simon Davies



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies

